

Agnes ydw i. Gweithiais fel cydgysylltydd y cyfrifiad yn 2011, ac roedd yn brosiect cyffrous. Roedd yn brosiect enfawr. Fi oedd yn gyfrifol am Ogledd Barnsbury sydd yn Islington, Llundain. Ac mae'n ardal fywiog, amrywiol. Mae gennym gymuned Dwrcaid fawr, a chymuned Eritreidd, ac yna mae hefyd gymysgedd o bobl o bob cwr o'r byd.

Nid yw'r person cyffredin ar y stryd yn gwybod dim am bolisiau'r llywodraeth a chynllunio trefol ac ati. Yn bur aml, bydd pobl yn meddwl, O wel, Dwi wedi rhoi genedigaeth. Bydd y plentyn yn cael e gofrestru gyda'r meddyg teulu. Bydd y plentyn yn mynychu'r ysgol. Dydyn nhw ddim, mewn gwirionedd, yn gweld beth sydd y tu ôl i'r wybodaeth honno i'r plentyn hwnnw gael lle yn yr ysgol. Mae'n dibynnu ar y galw neu faint o blant sydd wedi'u geni yn yr ardal. Mae hynny i gyd, yr holl wybodaeth honno sy'n cael ei bwydo drwy gyrff y llywodraeth sy'n cysylltu, fel ysgolion, ysbytai, meddygfeydd. Maen nhw i gyd yn rhyng-gysylltu rywsut ar ddata'r boblogaeth.

Fel cydgysylltydd, fe fyddwn i, yn y bore yn darllen fy e-byst, ac roedd angen i ni ffonio, roedd pawb wedi cael ffonau gan SYG, a oedd ar gael i'w defnyddio ar gyfer gwaith, ond, rywbyrd o wyth y bore, gall unrhyw un fy ffonio gydag unrhyw faterion. Er enghraifft, roedd un aelod o'r tîm wedi colli ei fathodyn adnabod, ac ni allwch fynd o ddrws i ddrws hebdo, oherwydd ni fyddan nhw'n gwybod pwy y'ch chi, ac roedd angen i mi gydgysylltu hynny a nodi ei fod ar goll. Ac yn amlwg, roedd angen rhoi gwybod i'r heddlu, rhoi gwybod i'm rheolwr llinell a rhoi gwybod i'r pencadlys. Ac maen nhw'n anfon un arall ato o fewn dau, dau neu dri diwrnod, tri diwrnod gwaith, a oedd yn eithaf cyflym.

Byddai pob diwrnod yn wahanol. Byddai heriau eraill, a byddaf yn cael galwadau ffôn. Er enghraifft, cefais alwad ffôn gan geiopractydd. Dywedodd, "Fe gafon ni ffurflen cartref i'w chwblhau ond busnes ydym ni." Bu'n rhaid i mi fynd i gasglu'r ffurflen a'i gwneud hi'n annilys. A'r pethau hyn... pethau bach fel hynny, ond fel arall roeddwn i ar gael i gefnogi fy nghasglwyr.

Roedd yn ddiddorol iawn oherwydd roeddwn i'n ddigon ffodus i weithio gyda grwpiau arbennig o bobl, ac roeddem i gyd mewn ffordd ar yr un trywydd. Ac, roeddem yn ffrindiau. Ac roedd hynny'n helpu. Aeth yn dda! Aeth yn dda iawn! Ac fe wnaeth y cydgysylltu hwnnw neu'r llinellau cyfathrebu oedd ar agor helpu ein hardal yn Islington i wneud yn dda. Rhaid bod gennych ddiddordeb mewn pobl, poblogaethau, y gymuned, a bod yn rhywun sy'n croesawu amrywiaeth, a bod yn rhywun sy'n treulio amser yn siarad â'r poblogaethau amrywiol yn eich cymuned. A rhywun diddorol. Mae yna lawer o bobl allan yno. Dwi'n credu weithiau fod pobl yn gallu bod yn eithaf swil. Dydyn nhw ddim yn gwybod ble i ofyn neu ble i ddod o hyd i'r wybodaeth hon. Mae fel mynd i bleidleisio. Mae fel cael democrataidd, rydych yn cymryd rhan mewn democratiaeth.

Rydych yn helpu i lywio'r dyfodol. Ac rwy'n credu y bydd gan lawer o bobl gryn ddiddordeb.